north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

---

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 12 Mehefin, 2020

---

**TEITL:** *Cytundeb Llywodraethu 2*

**AWDUR:** *Iwan G. D. Evans, Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya*

---

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Cynllun GA2 wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd ac adrodd ar ddeilliannau'r Gweithdy Llywodraethu.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cymeradwyo'r adroddiad.

2.2. Cymeradwyo'r Cynllun Prosiect Cytundeb Llywodraethu 2 diwygiedig yn ddarostyngedig i dderbyn diweddariad yn nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Mae cytundeb y bartneriaeth danategol a'r fframwaith llywodraethu yn allweddol i gytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2 cynhwysfawr ("GA2"). Mae'r adroddiad yn amlinellu deilliannau allweddol y Gweithdy Llywodraethu fel sail ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith hwn.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Adroddwyd ar gynllun prosiect arfaethedig GA2 i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Mai 2019. Fe wnaeth hyn amlinellu'r camau a ragwelwyd ar gyfer paratoi'r ddogfen fel paratoad i lofnodi'r cynllun twf terfynol. Mae cynllun diwygiedig drafft sy'n adnabod y camau sydd wedi'u cymryd a'r camau gweithredu nesaf wedi'i amgáu gyda'r adroddiad hwn fel ***Atodiad 1***. I grynhoi, rydym bellach mewn sefyllfa lle mae'r ddogfen ddrafft a baratowyd gan ein hymgynghorwyr arbenigol, Pinsents, wedi bod allan am sylwadau gan y sefydliadau Partner. Er ein bod wedi derbyn rhai ymatebion, rydym yn dal i aros am rai eraill.

4.2. Mae GA2 yn ddogfen sy'n cyfundrefnu perthynas ac ymrwymiad y partïon yn bennaf, ynghyd â'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ynghyd â sefydlu'r fframwaith llywodraethu cefnogol. Rwyf wedi atodi crynodeb o gynnwys GA2 fel ***Atodiad 2*** a gellir ei rannu'n fras yn dair elfen:

1. Llywodraethu
2. Perthynas Partneriaid
3. Materion Cyfreithiol a Thechnegol

4.3. Mae'r gwaith hyd yma wedi galluogi datblygu GA2 drafft sy'n cymryd sawl elfen o GA1. Hefyd, mae'n adlewyrchu'r newid allweddol o GA1 i GA2, sef o gefnogi'r cais a'r broses gymeradwyo i fod yn gytundeb ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf. Gall hefyd ddarparu'r sail ar gyfer Cydweithio pellach ac ehangach yn y dyfodol.

4.4. Cynhaliwyd gweithdy aml-ddisgyblaethol ar 14 Chwefror, 2020 i archwilio materion llywodraethu allweddol ynghylch paratoi GA2. Rhoddodd hyn gyfle i adnabod a deall y materion y mae angen cytuno arnynt neu eu datrys rhwng y Partneriaid. Bydd y datrysiadau hyn hefyd yn hysbysu'r gwaith o gwblhau GA2 cytûn. Mae'r isod yn grynodeb o'r Materion Allweddol a adnabuwyd a'r ymatebion posib.

## 5. MATERION ALLWEDDOL

| Cwestiwn / Sylw | Ymateb Arfaethedig |
|---|---|
| **5.1. STRWYTHUR LYWODRAETHOL**<br>Mae GA1 wedi amlinellu strwythur o is-bwyllgorau posib. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o bum is-bwyllgor sy'n creu strwythur llywodraethu sylweddol posib sy'n gymesur i rôl gyfredol y Bwrdd Uchelgais. Bydd unrhyw strwythur llywodraethu hefyd yn gorfod cyd-fynd â'r strwythurau Llywodraethu Rhaglenni a Phrosiectau angenrheidiol o amgylch y Cynllun Twf. Mae Is-fwrdd Trafnidiaeth wedi'i sefydlu ond nid oes yr un Is-fwrdd ffurfiol arall wedi'i sefydlu eto. Ystyriwyd bod angen hyblygrwydd ar y Bwrdd Uchelgais i greu strwythur a fydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo ei swyddogaethau. | **Dylai ffurf llywodraethu'r is-strwythurau fod wedi'i dirprwyo'n llwyr i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn GA2** |
| **5.2. AELODAETH Y BWRDD**<br>Ystyriwyd bod yr aelodaeth gyfredol yn gytbwys ac yn gynhwysol ond mae'n bosib y bydd angen ystyried sut mae grwpiau eraill e.e. y sector gwirfoddol yn rhyngweithio â'r Bwrdd Uchelgais. | **Adolygu rheolau gweithdrefn fel rhan o ddatblygu GA2.** |
| **5.3. ATEBOLRWYDD Y BWRDD UCHELGAIS (Partneriaeth)**<br>A yw'r materion sydd wedi'u cadw'n ôl i'r cyrff Partner y rhai iawn?<br>Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y Materion sydd wedi'u cadw'n ôl i'r Partneriaid yn briodol. Roedd angen diffinio ffiniau a hyblygrwydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais ynghylch penderfyniadau allweddol megis amrywio Rhaglenni a Phrosiectau.<br>Mae'r materion sydd wedi'u cadw'n ôl i'r Partneriaid yn GA1 yn cynnwys yn benodol:<br>• Cymeradwyo GA2;<br>• Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Busnes;<br>• Cytuno ar unrhyw gynnydd i amlen fforddiadwyedd Parti;<br>• Cymeradwyo unrhyw gynnydd i Gyfraniad y Partïon;<br>• Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol yn unol â Chymal 11.4 (Cyllideb Flynyddol); | **Mae GA2 yn sefydlu'r cysyniad o "Gynllun Busnes Cyffredinol" sy'n Fater a gedwir yn ôl. Byddai ystod y ddirprwyaeth a'r hyblygrwydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais wedi'i diffinio o fewn y ddogfen honno.**<br><br>**Mae angen cadarnhau'r Cynllun Busnes Cyffredinol arfaethedig fel tasg ar gyfer y Rhaglen Waith Gyffredinol gan y bydd yn ddogfen allweddol wrth fwrw ymlaen â'r Cytundeb Twf Terfynol a GA2 ar gyfer penderfyniad.** |

| | |
|---|---|
| • Cymeradwyo gwariant ychwanegol y tu hwnt i Gyllideb Flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar ran y Partïon fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 11.4 (Cyllideb Flynyddol);<br>• Diwygiadau i delerau'r Cytundeb hwn;<br>• Creu cwmni masnachu awdurdod lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. | |
| **5.4. CRAFFU**<br>Sut allai craffu rhanbarthol weithio orau? Sut ddylid rheoli pwerau galw i mewn?<br>Roedd y model craffu a ffafriwyd yn seiliedig ar Bwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol rhanbarthol presennol. Fe'u hystyriwyd yn allweddol i'r berthynas a'r cyfathrebu "mainc cefn". Roedd sgôp ar gyfer creu fframwaith a fyddai'n hwyluso craffu effeithiol gan bob corff Partner. | **Datblygu fframwaith Craffu Awdurdod Lleol yn seiliedig ar y chwe Phwyllgor Craffu statudol cyfredol.** |
| **5.5. BWRDD CYFLAWNI BUSNES**<br>A yw rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes yn eglur? Beth ddylai ei rôl fod yn GA2 ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf?<br>Ystyriwyd bod y Bwrdd Cyflawni Busnes yn allweddol i berthynas y sector preifat gyda'r Bwrdd Uchelgais. Mae'r strwythur llywodraethu yn ei le, yn y bôn, ond mae angen datblygu ei rôl a'i statws o fewn prosesau'r Swyddfa Rhaglen a'r Bwrdd Uchelgais yn ystyrlon. | **Bydd telerau'r Bwrdd Cyflawni Busnes wedi'u cynnwys yn GA2 ond gyda phŵer wedi'i ddirprwyo i'r Bwrdd Uchelgais i ddiwygio fel sydd angen.** |
| **5.6. Y GRŴP GWEITHREDOL**<br>A yw'r trefniadau cyfredol rhwng y Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio i chi e.e. y Grŵp Gweithredol yn gweithredu fel lle i glirio adroddiadau'r Bwrdd? A yw trefniadau cefnogi'r Grŵp Gweithredol yn eglur ac yn gweithio'n dda?<br>Yn gyffredinol, mae'r trefniadau'n ymddangos yn briodol, ond mae angen sicrhau bod GA2 yn adlewyrchu'r ymarfer sydd wedi'i ddatblygu'n gyfredol a'r rhyng-berthynas gyda'r Swyddfa Rhaglen wrth fwrw ymlaen. | **Dylai'r Grŵp Gweithredol adolygu'r cylch gorchwyl cyfredol gyda'r nod o hysbysu'r gwaith o ddrafftio GA2.** |
| **5.7. CYFNOD CLOI I MEWN**<br>A ydych chi'n fodlon gyda Chyfnod 'Cloi i mewn' tan yr Adolygiad Porth cyntaf, gyda'r angen am 12 mis o rybudd?<br>Derbyniwyd y cysyniad o gyfnod cloi i mewn, ond byddai tynnu'n ôl o'r Bartneriaeth wedi hynny hefyd angen darpariaethau er mwyn gwarchod y Partneriaid rhag y goblygiadau ariannol. | **Mae'r GA2 drafft yn seiliedig ar y dull hwn, ond mae angen gwneud gwaith manwl ar sefydlu'r paramedrau a'r atebolrwydd.** |

| | |
|---|---|
| **5.8. GWEITHIO'N EHANGACH YN RHANBARTHOL** | |
| Sut ddylem ni weithio gyda'r 'grwpiau ymgynghorol' a'r 'grwpiau rhanddeiliaid' megis y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Bartneriaeth Twristiaeth? | **Mae angen adnabod y cyrff rhanbarthol ac eraill sy'n gyrff ymgynghorol posib a sut a dan pa amodau y maen nhw'n cefnogi a hysbysu gwaith y Bwrdd Uchelgais.** |
| **5.9. CYLLID** | |
| A yw cyfraniadau blynyddol cyfredol y partneriaid yn ddigonol ac yn gynaliadwy?<br>Gosodwyd y cyfraniadau blynyddol ar y lefel isaf. Os bydd angen eu cynyddu, a fydd angen mecanwaith ariannu arnom e.e. (1) cyfraniadau cyfartal neu (2) cyfraniadau cymesur? Mae hefyd angen ystyried y "Cyfraniad Atodol" a'i statws. Mae'r cyfraniad a'r dosraniad atebolrwydd cyfredol yn seiliedig ar gyfraniadau craidd GA1 sy'n diystyru "Cyfraniad Atodol". Ystyriwyd bod y cyfraniadau cyfredol yn ddigonol ar hyn o bryd ac mae GA1 yn caniatáu ar gyfer uchafswm o 5% o gynnydd blynyddol. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r mater o fynegeio cyfraniadau'r dyfodol. | **Mater i'r Swyddogion Cyllid ei adolygu ac adrodd arno yn unol â'r rhaglen waith.** |
| Byddwn angen gwerthusiad o opsiynau ar ddosrannu'r costau benthyca. Beth ddylem ni ei ystyried e.e. rhannu'r risg o fenthyca?<br>Mae nifer o faterion rhyng-gysylltiedig cymhleth o amgylch cyfraniadau i e.e. costau benthyca, cyfrannedd a masnacholi y mae angen eu datblygu. Mae materion ariannol a chyfreithiol i fynd i'r afael â nhw. Yn ogystal, mae materion a fydd yn hysbysu'r gwaith o baratoi GA2, ond bydd hefyd yn berthnasol i Raglenni a Phrosiectau. | **Swyddfa Rhaglen a Swyddogion Cyllid a Chyfreithiol i adolygu ac adrodd ar yr opsiynau yn unol â'r Rhaglen Waith.** |
| **5.10. YMGYSYLLTIAD Â RHANDDEILIAID** | |
| Mae'r cynnydd tuag at Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf a GA2 yn broses gyfochrog sy'n arwain at benderfyniadau gan Sefydliadau Partner. Mae hi'n bwysig y cynhelir cyfathrebu gyda'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy gydol y broses sy'n arwain at Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf a GA2. Mae angen dealltwriaeth o lefel yr eglurder/sicrwydd cynharach sydd eu hangen ar rai safbwyntiau yn benodol ynghylch masnacholi er mwyn datblygu'r Achos Busnes. | **Mae angen cytuno ar raglen waith sydd wedi'i diweddaru a'i rhoi yn ei lle er mwyn ymdrin â'r llwybrau gwneud penderfyniadau.** |

## 6. CASGLIAD

6.1. Nod yr adroddiad yw amlygu'r prif faterion a fydd yn ffurfio swmp y gwaith wrth ffurfio GA2. Amlygwyd materion eraill hefyd, a chaiff y rhain sylw fel rhan o ddatblygu GA2.

- Rheoli gwrthdaro buddiannau o fewn llywodraethu rhaglenni a phrosiectau;
- Monitro'r gwaith o Ddatblygu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'r goblygiadau posib.

**7. AMSERLEN**

7.1. Roedd bwriad i gynnwys yr amserlen drafft i'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod ar yr 20fed o Fawrth. Bellach yn dilyn ardrawiad yr argyfwng COVID–19 mae llithriad anorfod wedi bod yn y bwriad ac mae amserlen ddiwygiedig wedi ei atodi ar gyfer cefnogi yr amcan o gael Cytundeb Terfynol mewn lle erbyn Rhagfyr 2020. Yn y cyd-destn yma mae'n briodol nodi fod y amserlen yma yn heriol ac yn mynd i olygu ymrwymiad gan y budd ddeiliaid i'w chyflawni. Yn anrofod mae elfennau sydd yn dal yn destun ail gychwyn er sefydlu amserlen penodol.

**8. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol.

**9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

9.1. Mae'r adroddiad yn ymdrin â pharatoi cytundeb llywodraethu cyfreithiol y bydd goblygiadau cyfreithiol iddo. Bydd y rhain yn destun cyngor a mewnbwn arbenigol wrth iddynt gael eu datblygu.

**10. GOBLYGIADAU STAFFIO**

10.1. Dim ar hyn o bryd.

**11. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

11.1. Dim ar hyn o bryd.

**12. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

12.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 6 Mawrth, 2020.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi GA2 |
| **Atodiad 2** | Crynodeb o gynnwys GA2 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Awdur yr adroddiad.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Rwyf wedi cyfrannu at agweddau ariannol yn y Cynllun Prosiect Cytundeb Llywodraethu 2 diwygiedig yma, yn y Gweithdy Llywodraethu ac wedi hynny, ac rwy'n cefnogi'r cynnig i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun."

**ATODIAD 1**

**Amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi GA2**

| Gweithred | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Arweinydd | Statws | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Cynhadledd gychwynnol gyda Pinsents** | 13/05/2019 | 13/05/2019 | Cyfreithiol | | |
| **Cylchredeg rhestr o Faterion Cychwynnol a Holiadur gyda drafft cychwynnol GA1** | 23/08/2019 | 14/06/2019 | Cyfreithiol | | |
| **Comisiynu ffrydiau gwaith / arweiniad penodol gan y Grŵp Gweithredol Cyllid a'r Partneriaid** | 20 Mai 2019 | I'w benderfynu fel rhan o ffrwd gwaith o fewn amserlen gytûn yn seiliedig ar y Rhaglen Waith gyffredinol. | Arbenigedd Cyfreithiol a pherthnasol | | |
| **Adolygu'r ymatebion a pharatoi drafft gweithiol cychwynnol o GA2** | 17/06/2019 | 30/06/2019 | Cyfreithiol | | |
| **Adrodd i'r Grŵp Gweithredol / Gweithdy** | 05/07/2019 | 05/07/2019 | Cyfreithiol | | |
| **Cynnal Gweithdy gyda Pinsents i adolygu'r ymatebion** | 23/10/2019 | 23/10/2019 | | | |
| **Paratoi ail ddrafft diwygiedig o GA2** | I'w baratoi a'i ddosbarthu ar 28/11/2020 | Dyddiad cau i dderbyn Ymatebion 07/02/20 | Cyfreithiol | | |
| **Adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Gweithredol 6/2/2020** | | 06/02/2020 | Cyfreithiol | | |
| **Gweithdy Llywodraethu ar Faterion Allweddol** | | 14/02/2020 | | | |
| **Adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Uchelgais** | | ~~20/03/2020~~ 12/06/2020 | Cyfreithiol | | Adroddiad wedi ei gylchredeg |
| **Cytuno ar sail Cyfraniadau'r Partneriaid ac atebolrwydd ac indemniad cymesur** | 06/03/2020 | I'w gadarnhau | Swyddogion Cyllid y Partneriaid | | Angen ei weithredu – Ond, mae hwn yn dasg fydd angen gweithio gyda Cyrff Partneriaid unigol i ddod i fodel. Bydd yn ffurfio rhan o GA2 ar gyfer cymeradwyaeth. |
| **Adnabod Dewisiadau er mwyn dosbarthu costau benthyca tybiannol er mwyn** | 06/03/2020 | I'w gadarnhau | Swyddfa Rhaglen | | Angen ei weithredu – Ond, mae hwn yn dasg fydd angen gweithio gyda Cyrff Partneriaid unigol i ddod i fodel. Bydd yn ffurfio rhan o |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **ymdrin â llif arian negyddol** | | | | | GA2 ar gyfer cymeradwyaeth. |
| **Adnabod Dewisiadau Masnacholi ar gyfer Rhaglenni a Phrosiectau** | 06/03/2020 | I'w gadarnhau | | | Adroddiad ar wahân i'r Bwrdd |
| **Cynllun Busnes Cyffredinol** | 06/03/2020 | Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r ddogfen | Swyddfa Rhaglen | | Angen ei weithredu – Ond, mae hwn yn dasg fydd angen gweithio gyda Cyrff Partneriaid unigol i ddod i fodel. Bydd yn ffurfio rhan o GA2 ar gyfer cymeradwyaeth. |
| **Model Drafft ar gyfer Craffu** | 20/03/2020 | 31/07/2020 | Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth | | Gellir paratoi hwn mewn tandem a'r uchod. Mae'r model a ffafrir sydd wedi ei sefydlu o amgylch Pwyllgorau Craffu Cyfredol yn dal angen cytundeb y Cynghorau unigol. Bydd yn ffurfio rhan o GA2 ar gyfer cymeradwyaeth. |
| **Adroddiad i brosesau democrataidd a Phartneriaid ar fodelau arfaethedig a dogfennaeth terfynol** | | Hydref / Tachwedd 2020 | Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth | | Dylai fod Pwyllgorau Craffu yn weithredol erbyn hyn. |
| **Sicrhau cytundeb ar y drafft terfynol** | Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r cytundeb. | Tachwedd 2020 | Cyfreithiol | | Canlyniad yr uchod. |
| **Paratoi drafft terfynol ar gyfer cadarnhad a chymeradwyaeth.** | Bydd angen i hyn fod yn unol â'r Rhaglen Waith gyffredinol | Tachwedd/Rhagfyr 2020 | Cyfreithiol | | Dylai fod yn "fformaliti" i yn sgil cam blaenorol |
| **Cwblhau'r Cytundeb** | Yn gyfochrog â'r broses gymeradwyo ar gyfer y Cynllun Twf. | Rhagfyr 2020 | Cyfreithiol | | Dylai fod yn "fformaliti" yn sgil cam blaenorol |

**ATODIAD 2**

**Trosolwg o GA2**

| Na | Pennawd GA2 | |
|---|---|---|
| 1 | DIFFINIADAU A DEHONGLIAD | |
| 2 | CYCHWYN, OES A THERFYNU | |
| 3 | EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL | ATODLEN 1 - POLISI DIRPRWYO |
| 4 | LLYWODRAETHU | ATODLEN 2 - CYLCH GORCHWYL |
| 5 | GWNEUD PENDERFYNIADAU | RHAN 1 - CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR |
| 6 | YR AWDURDOD LLETYA | RHAN 2 - CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL / GRŴP GWEITHREDOL |
| 7 | DYLETSWYDDAU'R AWDURDOD LLETYA | RHAN 3 - CYLCH GORCHWYL Y SWYDDFA RHAGLEN |
| 8 | DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL | RHAN 4 - CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU |
| 9 | CYD-BWYLLGOR | ATODLEN 6 - COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR Y BWRDD UCHELGAIS |
| 10 | TÎM GWEITHREDOL / GRŴP GWEITHREDOL | |
| 11 | Y SWYDDFA RHAGLEN | |
| 12 | CRAFFU | |
| 13 | CYNLLUN BUSNES | ATODLEN 4 - PENAWDAU GWARIANT |
| 14 | Y BROSES GYMERADWYO | ATODLEN 5 - CYFNODAU CYFRIFYDDU |
| 15 | YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU | ATODLEN 7 - ADRODDIAD CYFRIFOLDEBAU |
| 16 | TYNNU'R CYNLLUN TWF I LAWR | |
| 17 | LLINIARU | ATODLEN 8 - Y WELEDIGAETH TWF |
| 18 | CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON | ATODLEN 9 - CYNLLUN GWEITHREDU |
| 19 | TYNNU'N ÔL | ATODLEN 10 - CYNLLUN BUSNES CYFFREDINOL |
| 20 | CANLYNIADAU'R TERFYNIAD | ATODLEN 11 - CYNLLUNIAU BUSNES CYMERADWY |
| | | ATODLEN 12 - CYNLLUN TWF |
| 21 | EIDDO DEALLUSOL | |
| 22 | CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU | |
| 23 | CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI) | |
| 24 | DATRYS ANGHYDFOD | |
| 25 | DIOGELU DATA | |
| 26 | RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL | |
| 27 | RHYBUDDION | |
| 28 | CYFRAITH LYWODRAETHOL | |
| 29 | ASEINIO | |
| 30 | ILDIO HAWL | |

| | | |
|---|---|---|
| 31 | Y CYTUNDEB CYFAN | |
| 32 | GWRTHRANNAU | |
| 33 | PERTHYNAS Y PARTÏON | |
| 34 | CYFRIFOLDEBAU STATUDOL | |
| | | |